



Bwletin TGAU 2015 / PISA

Cyflwyniad

Fel paratoad ar gyfer y TGAU newydd mewn Cymraeg Iaith Gyntaf, Saesneg a Mathemateg ym mis Medi 2015 (a Gwyddoniaeth yn 2016), rhoddodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i'r pedwar Consortia rhanbarthol wneud cais am gyllid; roedd cais GwE yn llwyddiannus a chafodd cyllid ei gadarnhau am flynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16.

Hwn yw pedwerydd bwletin 'TGAU 2015 / PISA' GwE, a'r bwriad yw gadael i ysgolion wybod beth yw'r datblygiadau hyd yma, datblygiadau'r dyfodol o ran prosiect 'TGAU 2015 / PISA' ynghyd â datblygiadau cysylltiedig eraill.

Datblygiadau hyd yma

'Ysgolion Arweiniol' y rhanbarth yn y pedwar pwnc craidd yw:

- **Saesneg: Ysgol Bryn Elian** (Ymarferwr Arweiniol: **Louise Wallace**)
- **Mathemateg: Ysgol Eirias** (Ymarferwr Arweiniol: **Zoe Evans**)
- **Cymraeg: Clwstwr Gwynedd (Ysgol Botwnnog/Ysgol Tryfan/Ysgol Dyffryn Ogwen)**
(Ymarferwyr Arweiniol: **Tegwen Llwyd / Esyllt Maelor / Cheryl Roberts / Jeni Lyn Morris / Dafydd Roberts**)
- **Gwyddoniaeth: Ysgol yr Alun** (Ymarferwr Arweiniol: **Andy Rees**)

Er sicrhau bod deunyddiau Mathemateg a Gwyddoniaeth yn gwbl ddwyieithog ac yn cynnwys dimensiwn Cymreig, mae Ysgol Glan Clwyd yn gweithio gydag Ysgol Eirias o ran Mathemateg, tra bo ysgolion Môn yn gweithio gydag Ysgol Alun o ran Gwyddoniaeth.

Cynhaliwyd y gweithdai Cymraeg, Saesneg a Mathemateg TGAU cyntaf ym mis Chwefror. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y rhai a fynychodd ac roedd pawb yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a'r adnoddau a gynhyrchwyd gan yr 'Ysgolion Arweiniol' yn fawr iawn.



Roedd presenoldeb yn ardderchog; roedd ambell ysgol yn methu â mynychu oherwydd rhesymau dilys.

Nifer o ysgolion uwchradd yn y Rhanbarth = 55	Cymraeg	Saesneg	Mathemateg
Nifer yr ysgolion a fynychodd y gweithdai:	24	52 (95%)	52 (95%)

Dengys dadansoddiad o'r ffurflenni gwerthuso bod o leiaf 92% (a 100% ar gyfer y mwyafrif o'r datganiadau) o'r rhai a fynychodd yn cytuno neu yn cytuno'n gryf â'r datganiadau a ganlyn:

% y rhai a fynychodd a oedd yn cytuno/cytuno'n gryf â'r datganiadau isod am bob gweithdy pwnc:	Cymraeg	Saesneg	Mathemateg
Roedd amcanion yr hyfforddiant yn glir	100%	97%	92%
Anogwyd cymryd rhan a rhyngweithio	100%	99%	96%
Roedd y pynciau a'r testunau dan sylw yn berthnasol i mi	100%	100%	96%
Roedd y cynnwys yn drefnus ac yn hawdd ei ddilyn	100%	100%	98%
Roedd y deunyddiau a ddosbarthwyd yn ddefnyddiol	100%	100%	96%
Bydd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol yn fy ngwaith	100%	100%	98%
Roedd yr hyfforddwr yn wybodus am bynciau'r hyfforddiant	100%	100%	100%
Roedd yr hyfforddwr wedi paratoi yn dda	100%	100%	100%
Bodlonwyd amcanion yr hyfforddiant	100%	98%	94%

Datblygiadau'r dyfodol

Mae 'Platfform', a gomisiynir gan GwE, ar gyfer gosod yr adnoddau / deunyddiau wedi'i ddatblygu a hyderir y bydd hwn yn 'fyw' erbyn diwedd mis Mawrth.

Cynhelir gweithdai pellach ar gyfer Cymraeg a Saesneg ym mis Mehefin, 2015

Cynhelir gweithdy pellach ar gyfer Mathemateg yn ystod tymor yr hydref, 2015-16

Bydd gweithdai Gwyddoniaeth yn dechrau yn ystod tymor yr hydref, 2015-16

Bydd 'Ymarferwyr Arweiniol' Mathemateg a Gwyddoniaeth ar gael yn ystod tymor yr haf i gefnogi ysgolion/clystyrau unigol. Cysylltwch â'r canlynol os hoffech drefnu cymorth:

Mathemateg: Zoe Evans (Ysgol Eirias) zes@eirias.conwy.sch.uk

Gwyddoniaeth: Andy Rees (Ysgol Alun) andrew.rees@alun.flintshire.sch.uk

Yn ystod 2015-16, bydd yr 'Ysgolion Arweiniol' yn:

- Parhau i gynhyrchu adnoddau / deunyddiau enghreifftiol
- Sicrhau bod adnoddau / deunyddiau yn cael eu llwytho i fyny ar y 'Platfform'
- Cynnal 'gweithdai' pellach
- Cefnogi ysgolion / clystyrau unigol

Datblygiadau eraill

1) Bagloriaeth Cymru:

Mae GwE yn cefnogi ysgolion wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r cymhwyster diwygiedig Bagloriaeth Cymru ym mis Medi 2015. Mae'r cymorth hwn fel a ganlyn:

- Pedwar 'Ymarferwr Arweiniol' wedi'u penodi i arwain ar y gwaith datblygol
 - **Hywel Parry: Ysgol John Bright**
 - **Gwenno Jarvis: Ysgol Dyffryn Conwy**
 - **Catherine Jones: Ysgol Glan Clwyd**
 - **Gill Ovens: Ysgol Uwchradd John Summers**
- Pedwar gweithgor wedi'u sefydlu - mae pob grŵp yn datblygu cynlluniau dysgu enghreifftiol ar gyfer y 3 'Her': Her Cymunedol / Her Dinasyddiaeth Fyd-eang / Her Menter a Chyflogadwyedd a'r Prosiect Unigol
- Mae'r grŵp adnoddau wedi adnabod adnoddau addas sydd ar y Wê i'w defnyddio ar gyfer datblygu sgiliau.
- Mae grwpiau Cydlynwyr Bagloriaeth Cymru wedi'u sefydlu yn yr Awdurdodau Lleol
- Mae Grŵp Bagloriaeth Cymru Rhanbarthol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob Grŵp Bagloriaeth Cymru yr Awdurdodau Lleol
- Mae Cynhadledd Ranbarthol wedi'i threfnu ar gyfer 15 Mai 2015. Nod y Gynhadledd yw rhannu'r adnoddau a gynhyrchwyd gan y gweithgorau. I gofrestru ar gyfer y Gynhadledd, cysylltwch â:

Llinos Egan-Fretwell: llinosegan-fretwell@gwe.org.uk

Bydd yr holl adnoddau a gynhyrchir i'w gweld ar y 'Platfform' sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

2) Gweithredu Cam 1: adolygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu

Rhwng rŵan a diwedd tymor yr haf bydd cymorth ar gael i ysgolion y rhanbarth i baratoi ar gyfer gweithredu Cam 1 y Rhaglenni Astudio Diwygiedig a fydd yn statudol ym mis Medi 2015. Bydd GwE yn parhau i ddefnyddio ysgolion ac ymarferwyr blaenllaw i arwain ar y gwaith hwn. Bydd cymorth ar gyfer y Rhaglenni Astudio fel a ganlyn:

- **Cymraeg/Saesneg/Llythrennedd: Elan Davies, Ysgol Dyffryn Conwy**
- **Mathemateg/Rhifedd: Gemma Hawkins Ysgol John Bright**

Mae dyddiadau ar gyfer sesiynau i gefnogi ysgolion gyda gweithredu Cam 1 y Rhaglenni Astudio diwygiedig wedi'u rhannu bellach ag ysgolion. 'Ymarferwyr Arweiniol' o Ysgol Dyffryn Conwy ac Ysgol John Bright fydd yn arwain y sesiynau hyn, a'r gynulleidfa darged yw Penaethiaid Adran Cymraeg, Saesneg a Mathemateg neu Gydlynwyr Llythrennedd a Rhifedd CA3. I gofrestru ar gyfer y sesiynau hyn, cysylltwch â:

Heddwen Vaughan Roberts heddwenvaughanroberts@gwe.org.uk

3) Cwestiynau yn ôl meini prawf PISA:

Mae 90 cwestiwn yn ôl meini prawf PISA mewn Gwyddoniaeth, Mathemateg a darllen ar gael ar 'Hwb' i fyfyrwyr ac athrawon roi cynnig arnynt. Mae'r cwestiynau yn gyfan gwbl ar gyfrifiadur. Ewch i wefan 'Hwb' i ddefnyddio'r cwestiynau hyn:

<https://hwb.wales.gov.uk/>

Fe'u comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru

4) Astudiaeth PISA

Bydd 6ed astudiaeth PISA yn digwydd ym mis Tachwedd 2015. Bydd Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn dewis sampl cynrychiadol o ysgolion ar draws Cymru i gymryd rhan yn yr Astudiaeth.

Bydd RM, fydd yn gweinyddu'r brif Astudiaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn gwahodd yr ysgolion a ddetholwyd i gymryd rhan yn yr Astudiaeth. Dechreuodd y Broses Recriwtio ar 2 Chwefror a bydd wedi'i chwblhau erbyn 22 Gorffennaf 2015.

Gofynnir i ysgolion roi gwybod i GwE os fyddant wedi'u dewis i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Os ydych wedi cael eich dewis a heb roi gwybod i GwE eto, a fydddech cystal â gwneud hynny trwy gysylltu â:

Peter Maddocks petermaddocks@gwe.org.uk

5) IRIS

Fel rhan o'r 'Prosiect PISA / TGAU 2015', mae GwE wedi prynu 'IRIS Connect' ar gyfer deuddeg ysgol uwchradd ar draws gogledd Cymru. Prynwyd 'IRIS Connect' ar gyfer chwe ysgol gynradd hefyd ar draws y rhanbarth (pob ysgol yn nalgylch ysgol Uwchradd sy'n derbyn 'IRIS'). Y bwriad yw i athrawon ddefnyddio'r 'IRIS' i fyfyrion ar eu haddysgu, i wella dysgu ac addysgu ac i rannu arfer dda.



Dyddiadau ar gyfer y dyddiadur

- Gweithdai PISA / TGAU 2015:**

Gofynnir i Benaethiaid Adrannau Cymraeg a Saesneg roi dyddiad y gweithdy priodol yn eu dyddiadur

Cymraeg:				
Dyddiad:	Ysgol Arweiniol:	Hwb:	am/pm:	Lleoliad:
19.6.15	Ysgolion Botwnnog / Dyffryn Ogwen / Tryfan	Gwynedd/Môn/Conwy /Dinbych/Wrecsam/Fflint	9.15-3.30*	Gwesty St George Llandudno LL30 2LG

Saesneg:				
Dyddiad:	Ysgol Arweiniol:	Hwb:	am/pm:	Lleoliad:
16.6.15	Ysgol Bryn Elian	Wrecsam/Sir Y Fflint	9.15-3.30*	
18.6.15	Ysgol Bryn Elian	Conwy/Sir Ddinbych	9.15-3.30*	Optic, Llanelwy, Sir Ddinbych
26.6.15	Ysgol Bryn Elian	Gwynedd/Môn	9.15-3.30*	Tŷ Menai, Parc Menai, Bangor, Gwynedd

* Darperir cinio

- Cynhadledd Ranbarthol Bagloriaeth Cymru:
dydd Gwener 15 Mai 2015, Gwesty'r Imperial, Llandudno**

Rhannu adnoddau a gynhyrchwyd a rhannu arfer dda

I gofrestru ar gyfer y Gynhadledd cysylltwch â:

Llinos Egan-Fretwell: linosegan-fretwell@gwe.org.uk

Am ragor o fanylion am wybodaeth sydd yn y bwletin hwn, cysylltwch â :

Peter Maddocks, Uwch Ymgynghorydd Her
GwE, Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn LL28 4UL
0300 500 8087 / 07810813325

petermaddocks@gwe.org.uk